



---

# Effaith Economaidd S4C

2007-2010  
Adroddiad Terfynol

DTZ	WERU
Angharad Butler <a href="mailto:Angharad.Butler@dtz.com">Angharad.Butler@dtz.com</a>	Dr Jane Bryan Dr Annette Roberts <a href="mailto:BryanJ@cardiff.ac.uk">BryanJ@cardiff.ac.uk</a> <a href="mailto:robertsA1@cardiff.ac.uk">robertsA1@cardiff.ac.uk</a>



## Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	1
1.	Cyflwyniad	3
2.	Cefndir	4
3.	Cyfrifo'r Effaith Economaidd	9
4.	Effaith Economaidd S4C	12
5.	Effeithiau Ansoddol	18
6.	Casgliadau Cyffredinol	22
	Atodiad 1 Methodoleg Fanwl	28

---

## Crynodeb Gweithredol

Rhoddodd S4C gomisiwn i DTZ a'r Uned Ymchwil i Economi Cymru (WERU) i amcangyfrif effaith economaidd ei gweithredoedd rhwng 2007 a 2010.

Er bod yr asesiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y gadwyn gyflenwi a phatrymau gwariant S4C, a goblygiadau economaidd hyn i gyd, mae'n ddefnyddiol ystyried cyd-destun polisi'r agweddau hyn.

Mae S4C, wrth ganolbwyntio ar ei nod craidd, sef “*darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr o ansawdd da sy'n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru*”, yn gweithredu fframwaith sydd wedi'i fwrriadu i hybu ansawdd y cynnwys a gyflenwir gan y sector cynhyrchu annibynnol. Wrth wneud hynny, mae S4C wedi bod â'i bryd ar gynnal peth sefydlogrwydd yn y sector, gan ddarparu amodau sy'n galluogi cwmnïau i fuddsoddi mewn technoleg newydd, uwchsgilio'r gweithlu a chael mynediad at gyfleoedd mewn marchnadoedd newydd. Mae tryloywder y gofynion a'r ffactorau comisiynu, polisi masnachu teg a chymorth hyfforddi oll wedi bod yn nodweddion ar strategaeth weithredol S4C.

Gan ddefnyddio gwariant uniongyrchol S4C yng Nghymru, ynghyd â'r wybodaeth am wariant a ddarparwyd gan y sector annibynnol, mae'n bosib canfod yr effaith bwysig y mae S4C yn ei chael ar y sector Cynhyrchu Annibynnol. Wedyn defnyddir y model Mewnbyn-Allbyn ar gyfer Cymru i amcangyfrif effaith lawn y gwariant hwn ar yr economi leol wrth i gylchoedd o bryniadau gael eu gwneud trwy'r gadwyn gyflenwi (effeithiau'r cyflenwyr). Yn ychwanegol at y rhain ceir effeithiau 'trwy incwm ysgogedig' wrth i gyflogeion S4C a chyflenwyr S4C (ac yn y blaen) wario'u hincwm yn lleol, a thrwy hynny greu galwadau pellach ar yr economi sy'n arwain at gyflogaeth bellach. Caiff canlyniadau'r broses amcangyfrif hon eu dangos yn y tabl isod.

Amcangyfrif o Effeithiau S4C ar Economi Cymru o Safbwynt Cyflogaeth 2007-2010

Allbwn Crynswth S4C (£m)	100.06	102.7	104.9	104.2
<b>Cyflogaeth (Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn)</b>	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>
Sydd wedyn yn cynnal cyflogaeth yn/mewn:				
S4C	168	154	156	156
Cynhyrchu annibynnol	519	570	580	585
Isgontractwyr i gynhyrchwyr annibynnol	445	488	505	485
Cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus eraill	170	183	185	190
Gwestai, manwerthu, cyfanwerthu	240	271	280	287
Sectorau Eraill	346	390	398	408
<b>Cyfanswm yr Effaith CagALI ar Economi Cymru</b>	<b>1,888</b>	<b>2,056</b>	<b>2,104</b>	<b>2,111</b>
DS: gall na fydd colofnau'n rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu				
*Cyfanswm gwariant/trosiant S4C.				

Mae S4C yn allweddol bwysig i'r sector cynhyrchu yng Nghymru. Gydag allbwn crynswth o £105 miliwn yn 2009, mae'r darlledwr trwy ei benderfyniadau gwario'n cynnal tua 160 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol yn S4C, a thua 1,950 yn fwy o swyddi CagALI ar draws perthnasoedd o fewn y gadwyn gyflenwi. Mae'r mwyafrif llethol o'r rhain yn y sector cynhyrchu annibynnol ac yn isgontractwyr i'r sector annibynnol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd cyflogaeth pwysig â thâl uchel a sgiliau uchel yng Nghymru, sy'n gyson â nodau

Llywodraeth Cynulliad Cymru<sup>1</sup> sef gwella'r economi wybodaeth, â sgiliau uwch, mwy o arloesi a swyddi gwell o fewn y diwydiannau creadigol, sy'n un o'r chwe sector targed newydd. O ran Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA), amcangyfrifir bod effaith S4C ar economi Cymru yn £85 miliwn yn 2009, yn codi i dros £88 miliwn yn 2010.

Yn ychwanegol at y traweffeithiau economaidd mesuradwy hyn, gan fod S4C yn gwario'r rhan fwyaf o'i hincwm ar y Sector Annibynnol yng Nghymru, mae'r darlledwr yn dwyn effaith sylweddol ar hyfywedd y sector. Mae polisïau gweithredol a phenderfyniadau S4C yn pennu i ba raddau y mae'r sector yng Nghymru'n gallu ymateb i gyfleoedd mewn marchnadoedd ehangach.

Caiff datblygiadau allweddol y mae S4C wedi'u cyflwyno eu crynhoi dan y penawdau Isadeiledd, Datblygu Sgiliau ac Effeithiau Cymdeithasol.

O ran datblygiadau sy'n ymwneud ag isadeiledd, trwy fuddsoddi mewn rhwydweithiau gwell, mwy effeithlon, mae cyflenwyr S4C yn elwa o fynediad gwell at y farchnad gan fod y rhwydwaith yn eu galluogi i gyflenwi S4C, cwmnïau cynhyrchu eraill a darlledwyr eraill ag allbwn o ansawdd uwch mewn manylder uwch. Mae hyn yn dileu rhwystrau i fasnach ac i fynediad at farchnadoedd ehangach.

Mae aros gyfuwch â datblygiadau technolegol, a chodi safonau allbwn, yn golygu bod cyflenwyr S4C yn cael eu tywys i uwchsgilio a buddsoddi mewn meysydd y mae galw amdanynt yn y farchnad. Mae cymorth a thryloywder S4C yn y broses hon o drawsnewid technolegol yn cael gwared ar rai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau gan fusnesau. Mae hyn yn galluogi'r diwydiant creadigol yng Nghymru i gael mynediad at farchnadoedd ehangach, i gymryd rhan mewn cyd-gynyrchiadau ac i werthu deunydd yn rhyngwladol.

Trwy ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos ymrwymiad i hyfforddi ac uwchsgilio, mae S4C yn sbarduno'r broses o wella sgiliau yn y sector mewn modd uniongyrchol. Mae hyn i'w weld yn y buddsoddiadau ar lefel SAU<sup>2</sup> mewn cyrsiau gradd perthnasol ac yn yr incwm a neilltuir i DPP<sup>3</sup>.

Mae S4C yn allweddol bwysig i'r diwydiant cynhyrchu yng Nghymru. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn anodd ac yn ansicr, ac o ystyried dibyniaeth cwmnïau ar S4C (daw 60% o drosiant y sector o S4C), bydd gostyngiad mewn gwariant<sup>4</sup> yn cael effaith uniongyrchol ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Nid yw'n eglur i ba raddau y bydd busnesau'n gallu llyncu'r gostyngiad hwn mewn gwariant. Bydd gostyngiad mewn gweithgarwch yn arwain at effeithiau economaidd a chymdeithasol.

---

<sup>1</sup> Rhaglen Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd Gorffennaf 2010

<sup>2</sup> Sefydliadau Addysg Uwch

<sup>3</sup> Datblygiad Proffesiynol Parhaus

<sup>4</sup> e.e. mewn ymateb i Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr y Llywodraeth Glymblaid a phenderfyniadau cyllido y DCMS



## 1. Cyflwyniad

Awdurdod darlledu cyhoeddus yw S4C a sefydlwyd gan Ddeddfau Darlledu 1980/81 ac fe ddechreuodd ddarlledu am y tro cyntaf am 6.00pm ar nos Lun 1 Tachwedd 1982.

Prif amcan S4C<sup>5</sup> yw darparu gwasanaeth teledu o safon uchel. Nod craidd S4C<sup>6</sup> yw “*darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr o ansawdd da sy’n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru*”.

Yn ogystal â'r nod craidd hwn, mae gweithgarwch a phenderfyniadau S4C yn effeithio ar y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth am yr effaith hon a'r newidiadau sy'n digwydd yn y sector, mae S4C wedi rhoi comisiwn i DTZ a WERU i amcangyfrif effaith economaidd ei gweithgarwch ar economi Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio'r un fethodoleg â'r adolygiad o effaith economaidd a gwblhawyd gan y tîm ar gyfer y cyfnod 2002-2006, gan ddefnyddio data cyfoes<sup>7</sup>. Tra fod hyn yn golygu nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol gyda data 2002-2006, mae hyn yn rhoi cyfrif i S4C o'r modd y mae'r sector yng Nghymru wedi datblygu a newid ers 2002, ond yn enwedig rhwng 2007 a 2010.

Yr amcanion datganedig penodol yw:

- Amcangyfrif prif effeithiau S4C ar economi Cymru.
- Archwilio cadwyn gyflenwi S4C.
- Archwilio effeithiau ansoddol gweithgareddau S4C yng Nghymru.
- Ystyried effeithiau'r newid i ddigidol yn 2009/10 a datblygiadau technolegol eraill ar y sector darlledu yng Nghymru.

Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn

Adran 2 Datblygiadau Polisi Cefndir  
Adran 3 Methodoleg  
Adran 4 Effaith Economaidd Feintiol  
Adran 5 Effaith Ansoddol  
Adran 6 Crynodeb a Chasgliad

---

<sup>5</sup> Adran 204 Deddf Cyfathrebu 2003

<sup>6</sup> Fel a'i gosodwyd yng Nghynllun Corfforaethol S4C 1010

<sup>7</sup> Mae'r fframwaith modelu economaidd wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu'r strwythr economaidd gyfredol, a defnyddiwyd data arolwg newydd.

## 2. Cefndir

Mae S4C yn hanfodol bwysig i'r sector cynhyrchu yng Nghymru. Yn 2006, amcangyfrifwyd fod S4C yn cynnal dros 2,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CagALI) yn economi Cymru, ac yn creu £87 miliwn yn ôl yr amcangyfrifon mewn effaith gwerth ychwanegol ar economi Cymru.

Fel a nodwyd mewn adroddiad gan Hargreaves yn ddiweddar, mae S4C yn allweddol bwysig i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Wrth gynnal yr asesiad hwn o'r effaith economaidd, ac o gofio'r effaith y mae S4C yn ei chael ar y sector cynhyrchu annibynnol, mae'n bwysig ystyried polisiau a strategaethau'r darlledwr. Mae hyn yn rhoi yn eu cyd-destun rai o'r sylwadau a wneir am y sector, ers adolygiad 2002-2006.

Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r prif newidiadau y mae S4C wedi'u cyflwyno ers 2006, ac yn amlygu rhai o oblygiadau'r datblygiadau polisi hyn, a gaiff eu hadlewyrchu'n nes ymlaen yn y canfyddiadau am yr effaith economaidd.

### Trosolwg o'r Diwydiant

Bu nifer o newidiadau pwysig i amgylchedd gweithredol S4C a'r sector teledu yng Nghymru ar y cyfan ers cyhoeddi'r adroddiad yn 2007. Mae'r rhain yn cynnwys mabwysiadu nifer o bolisiau gan S4C mewn perthynas â masnachu teg, caffael, allanoli a chynnwys, yn ogystal â chreu fframwaith hyfforddiant. Mae datblygiadau ar draws y diwydiant cyfan yn cynnwys y newid i deledu digidol, y cynnydd mewn gwasanaethau ar-lein a'r defnydd o'r Rhyngwrdd i wyllo rhaglenni teledu, a chyhoeddi adolygiad o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Cafodd yr Athro Ian Hargreaves gomisiwn ar y cyd gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Dreftadaeth i gynnal adolygiad annibynnol o weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes y diwydiannau creadigol. Mae'r adroddiad a ddeilliodd o hyn, Calon Cymru Ddigidol: adolygiad o'r diwydiannau creadigol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru<sup>8</sup>, yn amlygu pwysigrwydd y diwydiannau creadigol i economi Cymru, ac yn nodi nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Yn yr adolygiad hwn, rhoddir sylw i rôl teledu ac, yn benodol, darlledwyr y sector cyhoeddus. Mae Hargreaves yn datgan, yn ogystal â'r BBC,

*“Bod S4C, yn yr un modd, yn allweddol bwysig i sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru... Heb S4C, mae'n ddigon posib na fyddai gan Gymru unrhyw gwmnïau teledu annibynnol o gwbl.”*

---

<sup>8</sup> Cyhoeddwyd Mawrth 2010

## Datblygiadau Polisi S4C

Nod craidd S4C yw “*darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr o ansawdd da sy'n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru*”<sup>9</sup>. Cyfeirir at bedwar nod ategol yng Nghynllun Corfforaethol 2010:

- Rheoli'r broses o newid i deledu digidol
- Lansio S4C mewn manylder uwch
- Cyflawni gofynion y strategaeth cynnwys
- Gweithredu o fewn fframwaith statudol a chyhoeddus S4C

Fel corff cyhoeddus mae Awdurdod S4C yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cyfundrefn caffael cyhoeddus yr UE. Mabwysiadodd S4C Bolisi Masnachu Teg yn 2008 i sicrhau bod ymwneud S4C â rhanddeiliaid a chyflenwyr yn digwydd yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol, a chaiff yr egwyddorion masnachu teg eu hamlinellu yn y polisi. Mae Awdurdod S4C wedi diffinio masnachu teg fel a ganlyn:

- Cyflawni busnes S4C mewn ffordd deg a rhesymol bob amser;
- Sicrhau cystadleuaeth deg o ran gweithgareddau caffael S4C;
- Peidio â gweithredu mewn ffyrdd sy'n rhwystro cystadleuaeth neu sy'n cael effaith negyddol ar gystadleuaeth; a
- Sicrhau y gweithredir polisiâu a phrosesau S4C mewn ffordd sy'n annog cystadleuaeth deg, gan sicrhau bod polisiâu a phrosesau o'r fath yn deg ac yn dryloyw hefyd<sup>10</sup>

Mae'r Datganiad Polisi Caffael, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2008, yn nodi'r dulliau caffael a fabwysiadwyd gan S4C wrth gyflawni'i Strategaeth Gaffael; mae ei elfennau craidd wedi'u bwriadu i sicrhau bod:

- S4C yn cynnal ei nod allweddol o hyrwyddo rhagoriaeth;
- S4C yn cael gwasanaethau a chyflenwadau sy'n cynrychioli gwerth gorau gan sicrhau felly'r defnydd mwyaf effeithlon o arian cyhoeddus;
- S4C yn gweithredu arfer gorau, gan leihau'r baich gweinyddol;
- S4C yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn osgoi gwastraff; a bod
- S4C yn hyrwyddo cystadleuaeth er mwyn asesu'r farchnad yn barhaus<sup>11</sup>

Ers 2007 mae S4C wedi cwblhau ei rhaglen allanoli; er mwyn gwella hyblygrwydd a dynamiaeth y darlledwr. Bellach nid oes swyddogaeth gynhyrchu fewnol<sup>12</sup> ac mae cangen fasnachol S4C hefyd wedi cael ei hallanoli<sup>13</sup>. Mae'r newid hwn wedi creu cyfleoedd gwaith ychwanegol i'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru, gan roi'r broses o ecsbloetio cynnwys a broceru cytundebau ar gyfer cynrychiadau a gyd-ariennir dan reolaeth y sector cynhyrchu am y tro cyntaf.

Er enghraifft, cafodd Apollo gynnig contract i gynhyrchu sioe her farchogaeth i bobl ifanc, yn seiliedig ar fformat yr oedd Parthenon (partner yn Cymru International a gafodd gontract ar gyfer rhai o'r gweithgareddau masnachol) wedi ei ddatblygu ac yr oedd yn ei ddisbarthu.

---

<sup>9</sup> Cynllun Corfforaethol S4C 2010

Gwerthwyd y gyfres i Ffrainc, ac fe'i dybiwyd i'r Ffrangeg. Fe'i gwerthwyd hefyd yn y Dwyrain Canol gan gynnwys prif sianel chwaraeon Dubai a Content Union Middle East. Cafodd y fersiwn Gymraeg ei defnyddio hefyd fel peilot i farchnata'r fformat ar gyfer ei werthu ac mae'n debygol o gael ei werthu i Ganada ac Awstralia. Mae'r math yma o berthynas wedi creu cyfleoedd gwaith i'r sector ac wedi codi proffil y cynnwys a gynhrychir yng Nghymru.

Gan ddeall pwysigrwydd a gwerth sicrhau cyllid ychwanegol, mae S4C yn cydweithio'n agos gyda Busnes Creadigol Cymru i helpu i sicrhau cyllid posib. Yn ogystal â hynny, mae S4C wedi cyflwyno<sup>14</sup> polisi newydd ar gyfer adolygu cyfnodau trosglwyddo neilltuedig, gan amcanu at sicrhau bod unrhyw rwystrau i ecsbloetio hawliau masnachol yn cael eu dileu, er mwyn galluogi cwmnïau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn.

Mae Strategaeth Cynnwys S4C yn annog cwmnïau cynhyrchu i ystyried datrysiadau newydd ac arloesol ar gyfer datblygu cynnwys sy'n apelio at, ac yn gweddu i farchnad ehangach a rhyngwladol. Mae pedair mantais i'r cyd-gynrychiadau rhyngwladol hyn. Yn gyntaf, ceir mwy o drosoledd o ran cyllid, yn ail mae cwmnïau yng Nghymru'n agored i wahanol ddulliau golygyddol, yn drydydd mae cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru'n dod i gysylltiad â marchnad ehangach ac yn bedwerydd maent yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad cychwynnol.

Mae'r newidiadau polisi hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod y sector annibynnol yn agored i gystadleuaeth yn y farchnad ac i farchnad fwy, gan amcanu'n benodol at hyrwyddo rhagoriaeth, a thrwy hynny helpu'r sector i ymateb i gyfleoedd ehangach.

Mae'r newid i deledu digidol a'r newid i ddarlledu mewn Manyllder Uwch wedi cael effeithiau pellgyrhaeddol ar weithgareddau S4C. Lluniwyd Strategaeth Cynnwys S4C 2009 – 2013 yn benodol i bontio'r cyfnod rhwng dechrau a diwedd y newid i ddigidol, ac i adeiladu ar y strategaeth rhagoriaeth greadigol a roddwyd ar waith yn 2004. Ar yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2010 fe newidiodd y trawsyrrydd olaf yng Nghymru o analog i ddigidol, gydag S4C yn dod yn Sianel Gymraeg yn unig. Gan fod S4C bellach yn sianel gyfan gwbl Gymraeg, mae'r Strategaeth Cynnwys yn canolbwyntio ar bedair rhan o'r dydd: bore, prynhawn, oriau brig a hwyr, ac mae gofynion priodol o ran y cynnwys yn ystod pob un o'r rhain.

Mae Polisi Manyllder Uwch S4C yn datgan y bydd y darlledwr yn parhau i gynyddu nifer yr oriau a gaiff eu comisiynu neu eu caffael mewn Manyllder Uwch, a rhagwelir y bydd 100% o'r holl raglenni a gomisiynir ar gyfer eu trosglwyddo'n cael eu caffael mewn Manyllder Uwch erbyn 2012. Mae'r Canllawiau Manyllder Uwch i Gynhyrchwyr yn cydnabod yr hyfforddiant y mae'i angen i gyrraedd y targed hwn, gan gyfeirio at Fframwaith Hyfforddiant Skillset Cymru.

Mae S4C wedi ymgeisio i roi'r rhybudd cynharaf posib am ddatblygiadau technolegol sy'n effeithio ar y sector cynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, fe gyhoeddodd S4C ei Pholisi Manyllder Uwch am y tro cyntaf ym mis Awst 2006, bron i chwe blynedd cyn bod y darlledwr yn disgwyl i'r holl raglenni gael eu comisiynu i safonau Manyllder Uwch.

Mae'r arfer hwn wedi'i fwriadu i sicrhau bod gan y diwydiant cynhyrchu amser i ymateb i'r goblygiadau o ran gwybodaeth, technoleg, hyfforddiant a chyllid sy'n deillio o ddatblygiadau, gan geisio cael cymaint â phosib o sefydlogrwydd yn y sector.

Fe drefnodd S4C hefyd hyfforddiant manwl mewn peirianeg darlledu ar gyfer staff i helpu gyda'r newid i Fanylder Uwch. Mae'r hyfforddiant pwrpasol y mae S4C yn ei drefnu ar gyfer ei staff hefyd wedi cael ei ymestyn i'r diwydiant ehangach am gyfraddau llawer is gan fod y darparwr yn gallu sicrhau mas critigol o gyfranogwyr, a chyflawni darbodion maint o ganlyniad i'r dull cydgysylltiedig hwn.

Un enghraifft o hyn yw'r Seminar ar Ddeall Teledu Manylder Uwch ym mis Hydref 2009. Yn hanesyddol, dim ond yn Llundain y mae'r math yma o seminar wedi bod ar gael yn nodweddiadol, am gost o ryw £1,200 i bob cyfranogwr unigol. Fodd bynnag, gan fod S4C yn gallu comisiynu diwrnod hyfforddi wedi'i deilwra'n arbennig a chynnig cyfraniad gwarantiedig cyfyngedig am ddyraniad o leoedd, cafodd y seminar ei ymestyn i'r diwydiant am gost o £150 i bob cyfranogwr, a chafodd ei gyfleu yng Nghaerdydd.

Fe wnaeth Skillset Cymru, mewn partneriaeth gyda S4C, Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) a'r Cynulliad Cenedlaethol lansio'r Fframwaith Hyfforddiant yn 2008 i gefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer cyflogaion llawn-amser a gweithwyr llawrydd yn niwydiannau'r cyfryngau creadigol.

Mae'n un o'r rhag-amodau ar gyfer pob comisiwn a roddir gan S4C bod cwmnïau'n cyflwyno dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Mae'r Fframwaith Hyfforddiant (Skillset Cymru yn arbennig) yn cydlynu'r data hwn a gofynion sgiliau eraill ar gyfer sector y cyfryngau creadigol yng Nghymru. Caiff y casgliadau y doir iddynt o ganlyniad i'r wybodaeth hon eu defnyddio i lywio'r cytundebau sgiliau sector<sup>15</sup> a'r buddsoddiadau a wneir gan S4C a TAC mewn darpariaeth hyfforddiant a bwrsariaethau ar gyfer y sector.

Mae'r Fframwaith Hyfforddiant yn cynorthwyo cwmnïau i ddatblygu a gweithredu eu cynlluniau hyfforddiant, ac mae'r gwasanaethau'n cynnwys darparu cymorth proffesiynol, lefel-uchel, asesiad rhad ac am ddim o anghenion hyfforddiant a chyllid tuag at gostau hyfforddi ar gyfer cwmnïau yn y cyfryngau creadigol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Fe wnaeth S4C a TAC fuddsoddi £440,000<sup>16</sup> rhyngddynt yn 2009 a 2010 mewn hyfforddiant ar gyfer sector y Cyfryngau Creadigol yng Nghymru. Mae Skillset yn gweithredu fel rheolwr prosiect ar gyfer y gwaith yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant. Yn 2009/10 roedd y prosiectau hyfforddiant a oedd yn yr arfaeth yn cynnwys rhaglen arwain a rheoli lefel-uchel, cyd-gynhyrchu, cynnwys aml-gyfryngol, hyfforddiant polisi, cronfa golygyddion proffesiynol a chynllun mentora lefel-uchel ar gyfer ysgrifennu sgrïptiau. Gall gweithwyr llawrydd yng Nghymru hefyd ymgeisio am fwrsariaethau i fynychu cyrsiau hyfforddi a chael mynediad at gyngor ac arweiniad unigol, rhad ac am ddim mewn perthynas â hyfforddiant gan ymgynghorydd hyfforddiant arbenigol yn y sector.

Mae'r darlledwr hefyd yn cynnig cymorth ar ffurf bwrsariaethau ac ysgoloriaethau; i gefnogi a datblygu sgiliau i bobl ifanc mewn meysydd megis newyddiaduraeth, drama a cherddoriaeth. Mae'r dyfarniadau hyn yn unol â'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Cynnwys ac yn cyfrannu tuag at gryfhau'r cynnwys y mae'r darlledwr yn ei gomisiynu. Mae'r ysgoloriaethau hyn yn aml yn cael eu darparu trwy golegau a sefydliadau megis y Ganolfan Astudiaethau Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol. Mae gweithio mewn partneriaeth fel hyn wedi helpu i sicrhau bod doniau'n cael eu canfod a'u meithrin.

---



Bydd y datblygiadau allweddol hyn o ran polisiâu a strategaethau wedi cael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gadwyn gyflenwi S4C, ac yn benodol ar y diwydiant cynhyrchu. Yn arbennig, mae'r datblygiadau polisi wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr allbwn a drosglwyddir gan S4C yn uchel ei ansawdd. Wrth ymagnïo i gyrraedd y nod sylfaenol hwn, mae S4C yn gorfodi maen prawf ansawdd ar y sector cynhyrchu yng Nghymru sy'n ei gyflenwi. Trwy fuddsoddi, hyfforddi a gweithio i ateb gofynion ansawdd S4C, mae'r sector cynhyrchu'n cael ei gymell i gyrraedd y safonau ansawdd a fynnir gan y diwydiant darlledu rhyngwladol. Mae strategaeth hyfforddiant a chynhyrchu gefnogol S4C (cael gwared ar rwystrau masnachol i werthiant, rhybuddio ymlaen llaw ynghylch datblygiadau technolegol ac ati) yn darparu amgylchedd cymharol sefydlog lle mae cwmnïau'n cael amser i esblygu ac ymateb yn llawn i'r cyfleoedd masnachol, technolegol neu gyfleoedd eraill sydd ar gael.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio datod yr effeithiau ansoddol a meintiol hyn i ddangos sut y mae arferion gweithredol S4C yn effeithio ar y sector cynhyrchu.

### 3. Cyfrifo'r Effaith Economaidd

Mae'r adroddiad hwn yn asesu effaith gweithgareddau S4C ar economi Cymru o ran cyflogaeth. Cafodd yr effaith hon ei hamcangyfrif gan WERU trwy ddefnyddio'r Model Mewnbyn-Allbyn. Mae'r tîm ymchwil yn ddiolchgar i S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol am ddarparu'r wybodaeth fanwl sydd wedi gwneud y broses fodolu hon yn bosib.


Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull methodolegol a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effaith economaidd S4C. Gellir cael mwy o fanylion o [www.weru.org.uk](http://www.weru.org.uk)

#### 3.1 Methodoleg

Mae'r effaith economaidd a amcangyfrifir yma'n defnyddio'r un fethodoleg ag a ddarparwyd yn yr adroddiad ar S4C yn 2007 a oedd yn ymwneud â 2002 – 2006. Caiff y fethodoleg hon ei hegluro'n fras yn yr adran hon, gyda mwy o fanylion yn Atodiad 1. Mae'r diagram isod yn symleiddio prif elfennau asesiad o effaith economaidd, ac yn dangos bod Cyfanswm yr Effaith Economaidd yn seiliedig ar dair prif elfen:

- a) Incwm o S4C (lefel Gwariant S4C)
- b) Sut y caiff hwn ei ddefnyddio (a faint sy'n cael ei golli o Gymru)
- c) Effeithiau Lluosydd

**Ffigur 3.1 Cyfrifo'r Effaith Economaidd**



Caiff pob un o'r prif elfennau hyn ei disgrifio isod.

## Incwm

Mae S4C yn derbyn incwm gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac o referniw hysbysebu ac ati, sydd wedyn yn cael ei wario ar ei staff a'i gweithgareddau pencadlys ei hun ac ar y sector annibynnol a gweithgareddau cysylltiedig, sydd yn ei dro'n darparu cynnwys rhaglenni (gweler hefyd Tabl 4.1). Mae cylchoedd gwariant olynol hefyd yn effeithio ar sectorau eraill yng Nghymru er, gan na all economi Cymru gyflenwi'r holl fewnbynnau y mae'u hangen, bod rhai'n cael eu 'mewnforio' sy'n gyfystyr â cholli incwm o'r economi (*h.y. Incwm yn cael ei wario y tu allan i Gymru ar nwyddau a gwasanaethau*).

Tabl 3.1 Refeniw S4C fesul Ffynhonnell, 2007 i 2010

	2007	2008	2009	2010
	£m	£m	£m	£m
	Gwirioneddol	Gwirioneddol	Gwirioneddol	Rhagolwg
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	94.39	98.44	101.36	101.65
Rhaglenni/Gwerthu amser darlledu	5.07	3.89	3.15	2.35
Cyhoeddi/marsiandïaeth	0.43	0.17	0.31	0
Manteisio ar blethiad	0	0	0	0
Incwm arall	0.15	0.17	0.103	0.22
Cyfanswm	100.05	102.69	104.94	104.22
Ffynhonnell: S4C 2010				
Sylwer: Efallai na fydd y colofnau'n rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu				

Mae S4C yn ddarledwr sy'n comisiynu ei allbynnau gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol, a dyma lle caiff y gyfran fwyaf o gyllideb S4C ei gwario. Mae'r cwmnïau annibynnol hyn wedyn yn cyflogi pobl i gynhyrchu allbynnau rhaglenni. Wrth gynhyrchu'r allbynnau hyn, mae'n rhaid i'r sector cynhyrchu annibynnol hefyd brynu nwyddau a gwasanaethau eraill. Er enghraifft, byddant yn is-gontractio gwaith i weithwyr llawrydd ac yn llogi offer. Mae'r unigolion hyn hefyd yn prynu nwyddau a gwasanaethau o sector y cyfryngau a darlledu ac o sectorau eraill yn economi Cymru, ac mae'r patrwm yn parhau ar hyd y gadwyn gyflenwi. Mae'r model Mewnbyn-Allbyn (I-O) a ddatblygwyd gan WERU yn olrhain yr effeithiau olynol hyn ar y gadwyn gyflenwi (effeithiau trwy incwm ysgogedig) er mwyn amcangyfrif cyfanswm effaith economaidd penderfyniadau gwariant S4C.

Caiff cyllid yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bennu gan newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Yn 2002 pennwyd grant o £81.4m gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a hwnnw'n cynyddu i £90.85m yn 2006. Yn 2009 roedd yn £101.36m ac yn £101.65m ar gyfer 2010. Wrth i nifer y sianeli amlhau yn yr oes ddigidol mae wedi bod yn fwyfwy anodd gwerthu amser darlledu ar gyfer hysbysebu. O ganlyniad mae referniw o'r fath wedi gostwng, fel y dengys Tabl 3.1. Mae incwm marsiandïaeth wedi gostwng hefyd o ganlyniad i'r un pwysau cystadleuol.

## Modelu

### a) Effeithiau'r Cyflenwyr

Mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effaith economaidd gwariant S4C ar economi Cymru o 2007 i 2010, gan ddefnyddio gwybodaeth ariannol ar gyfer pob blwyddyn a ddarparwyd gan

S4C. Gan fod S4C yn gomisiynydd, roedd hefyd yn angenrheidiol casglu gwybodaeth gan gyflenwyr er mwyn canfod faint o'u gwariant oedd yn cael ei gadw yng Nghymru (**a faint sy'n cael ei golli o Gymru**) ac i adnabod unrhyw newidiadau yn y patrymau hyn dros amser. Yr enw ar yr effaith economaidd sy'n deillio o wario ar y gadwyn gyflenwi yw effaith y cyflenwyr.

#### **b) Effeithiau trwy Incwm Ysgogedig**

Ar ben effaith y cyflenwyr mae'n rhaid ychwanegu effeithiau trwy incwm ysgogedig. Pan fo cyflogeion yn gwario'u tâl a'u cyflog yn eu hardal leol ar nwyddau a gwasanaethau, maent yn rhoi galw ar yr economi. Mae'n rhaid ychwanegu'r effeithiau hyn trwy incwm ysgogedig at effeithiau'r cyflenwyr i gyfrifo cyfanswm effaith anuniongyrchol S4C.

Ceisiwyd gwybodaeth ariannol fanwl gan yr holl sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Cafodd y gwybodaeth gan bob cwmni ei chyfuno i greu sector cyfun sy'n dangos y pryniadau a wnaed o sectorau eraill yng Nghymru.

#### **c) Effeithiau lluosydd**

Wedyn cafodd yr wybodaeth hon ei rhoi yn y Tabl Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru, sy'n olrhain pryniadau a gwerthiant rhwng gwahanol sectorau yn economi Cymru. Mae'r Tabl Mewnbwn-Allbwn hwn wedyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer amcangyfrif effeithiau'r perthnasoedd masnachu hyn yng Nghymru, ac yna'n ei gwneud yn bosib amcangyfrif effaith S4C.

Felly, wrth amcangyfrif yr effaith economaidd, roedd yn rhaid wrth dair elfen allweddol:

- Gwariant S4C
- Patrymau prynu'r cyflenwyr
- Y model Mewnbwn-Allbwn (sut mae amryw sectorau'n rhyngweithio â'i gilydd yng Nghymru)

## **3.2 Crynodeb**

Wrth amcangyfrif effaith economaidd S4C ar gyfer pob blwyddyn o 2007 i 2010, defnyddiwyd ffigyrau archwiliedig a chyhoeddedig S4C. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i adrodd ar effaith uniongyrchol S4C (e.e. cyflogaeth uniongyrchol a chyfanswm y prif wariant) ac fe'i defnyddiwyd wedyn i fodelu effeithiau economaidd 'anuniongyrchol' S4C ym mhob un o'r blynyddoedd.

Er mwyn deall effaith newidiadau yng ngwariant S4C ar yr economi, roedd gofyn cael dealltwriaeth fanwl am gyflenwyr S4C. Casglwyd gwybodaeth gan ystod eang o gyflenwyr S4C i greu darlun o'r modd y mae'r sector Cynhyrchu Annibynnol yn gweithredu o ran patrymau prynu a chyflogaeth. Wedyn defnyddiwyd y Tabl Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru i olrhain cylchoedd ariannu olynol o fewn yr economi, er mwyn gallu amcangyfrif effaith S4C dros y blynyddoedd rhwng 2007 a 2010.

Mae manylion pellach am y fethodoleg a Thablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru 2007 i'w cael yn [www.weru.org.uk](http://www.weru.org.uk)

## 4. Effaith Economaidd S4C

Yn 2007 adroddodd DTZ a WERU ar effaith economaidd amcangyfrifedig gwariant S4C ar economi Cymru rhwng 2002 a 2006. Mae'r adroddiad hwn yn ailadrodd yr ymarfer hwnnw gan ddefnyddio'r un fethodoleg, ar gyfer y cyfnod o 2007 i 2010, ond gan gymhwyso data newydd o arolygon i fodel diweddaedig o economi Cymru. Adroddir ar yr effeithiau hyn yn nhermau swyddi CagALI. Fodd bynnag, nid yw'r mesur hwn ar ei ben ei hun yn cynnig dealltwriaeth lawn am arwyddocâd economaidd S4C, gan ei fod yn anwybyddu'r mathau o sgiliau, y lefelau incwm ac ansawdd y galwadau technegol a wneir; y mae i bob un ohonynt werth economaidd. Bydd asesiad meintiol sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar natur a maint perthnasoedd masnachu wastad yn anghyflawn. Fodd bynnag, mae amcangyfrif yr effeithiau meintiol yn darparu meincnod wrth asesu arwyddocâd economaidd gweithgareddau darlledu, ac yn darparu fframwaith ar gyfer deall canlyniadau newid.

Caiff rhai o effeithiau ansoddol S4C eu harchwilio yn Adran 5. Dylid ystyried y rhain ar y cyd gyda'r effeithiau polisi a ddisgrifir yn Adran 2 a'r effaith economaidd a ddisgrifir yma.

### 4.1 Gwariant yng Nghymru

Caiff lefel yr effaith economaidd sy'n gysylltiedig â gwariant penodol ei phennu gan natur ymwreiddiedig gweithgaredd, ac mae S4C yn rhan o ddiwydiant y mae'i bwysigrwydd economaidd yn cael ei gynyddu gan ei gysyllteddau lleol agos. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar natur a maint y perthnasoedd masnachu hyn, ac yn plotio'r effeithiau hyn mewn blynyddoedd dilynol o 2007 ymlaen.

#### Gwariant S4C yng Nghymru

Yn y tair blynedd tan ddiwedd Rhagfyr 2009 roedd trosiant blynyddol cyfartalog S4C ychydig yn uwch na £103m, gan ddarparu cyfartaledd o 160 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CagALI) o fewn y sefydliad. Fel a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol ar y sector ac i S4C, mae unigolion a gyflogir yn uniongyrchol angen lefel uchel o sgiliau rheoli a phroffesiynol, a chânt eu gwobrwyo'n gymesur â'r rheiny. Mae'r cyflog crynswth cyfartalog<sup>10</sup> yn S4C ychydig yn uwch na £40,000<sup>11</sup>. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd yn y DU ar gyfer galwedigaethau rheoli, ond yn uwch na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru, sy'n adlewyrchu un o gryfderau pwysig y sefydliad i economi Cymru. Mae'r Diwydiannau Creadigol yn dal i fod yn sector sy'n cael blaenoriaeth<sup>12</sup> gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd y cyfleoedd y mae'n eu darparu ar gyfer cyflogaeth â chyflog uwch.

<sup>10</sup> Mae'n cynnwys goramser ond nid yw'n cynnwys costau cyflogwr megis yswiriant gwladol a phensiynau.

<sup>11</sup> Datganodd Skillset – Y Diwydiannau a'r Gweithlu Creadigol fod yr incwm ym myd Darlledu Teledu oddeutu £38,000 yn 2009. Mae adolygiad cyflogau Televisual Ebrill 2009 yn cadarnhau fod cyfartaledd cyflog i'r diwydiant yn £48,200 a bod cyflog cyfartaledd mewn swydd teledu daearol (llawn amser) yn £51,400.

<sup>12</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru: Adnewyddu Economaidd: Cyfeiriad Newydd Gorffennaf 2010

Cafodd ffigyrau'r gwariant o 2007 i 2009 eu darparu gan S4C, ynghyd â'r rhagolwg o wariant ar gyfer 2010. Fe wnaeth S4C hefyd ddarparu amcangyfrif o'r gyfran o'r gwariant a gedwir yng Nghymru.

Tabl 4.1 – Gwariant gan S4C yng Nghymru a'r Allbwn

	Cyfanswm gwariant yng Nghymru, £m (enwol)			
	Gwir.	Gwir.	Gwir.	Rhagolwg
	2007	2008	2009	2010
Costau Llafur Uniongyrchol	6.64	6.30	6.652	7.02
Gwasanaethau cynhyrchu annibynnol	70.27*	78.28	80.61	81.34
Costau eraill sy'n gysylltiedig â rhaglenni	3.95	4.07	3.70	3.25
Costau gwerthiant	1.09	0.73	0.06	0.03
Gweinyddu a hyfforddi	0.66	0.38	0.31	0.85
Rhentu/prydlesu eiddo	0.01	0.01	0.03	0.04
Trydan, nwy a dŵr	0.01	0.01	0.01	0.01
Cynnal a chadw ac atgyweirio	0.05	0.05	0.08	0.09
Llogi a phrydlesu offer	0.01	0.01	0.03	0.02
Gwasanaethau cludiant	0.04	0.01	0.01	0.01
Gwestai ac arlwyo	0.06	0.03	0.01	0.02
Gwasanaethau ariannol a busnes/telathrebu	0.18	0.45	0.26	0.36
Gwasanaethau a llafur a isgontractiwyd	0.68	0.57	0.51	0.38
Is-gyfanswm	83.70	90.97	92.33	93.42
Elw/trethi/ardrethi/mewnforion	16.36	11.73	12.61	10.78
Cyfanswm = Allbwn Crynswth (£m)	100.05	102.69	104.94	104.22
Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn	168	154	156	156amc

Ffynhonnell: S4C 2010 Sylwer: nid yw'r colofnau'n rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu

Mae Tabl 4.1 yn dangos gwariant gwirioneddol S4C yng Nghymru ar gyfer y cyfnod o 2007 i 2009, a gwariant a ragwelir ar gyfer 2010 (wedi'u cofnodi mewn arian enwol). Mae cyfanswm y gwariant gan S4C a gaiff ei gollu allan o Gymru'n isel, gan roi cyfrif am tua 10 y cant o gyfanswm yr allbwn. Rhwng 2007 a 2010, mae gwariant uniongyrchol gan S4C (gan gynnwys cyflogau) yng Nghymru wedi cynyddu 12 y cant. Mae costau llafur uniongyrchol (neu wariant ar gyflogau) yn cael eu cadw yng Nghymru i raddau helaeth. Yn nodweddiadol, mae tua 75% o arian S4C yn cael ei wario ar y cwmnïau teledu annibynnol, sydd yn eu tro'n gwario arian yng Nghymru. Mae gwasanaethau a mewnbynnau eraill megis cyfleustodau, cynnal a chadw ac atgyweirio a gwasanaethau a isgontractir yn cael eu prynu yng Nghymru.

Mae S4C wedi cynnal hanes da o brynu'n lleol lle y bo'n bosib gan sicrhau bod yr effaith economaidd leol yn cael ei chynyddu i'r eithaf, tra'i bod hefyd wastad yn ceisio peidio â pheryglu ansawdd. Ers 2002-2006, tra bod incwm S4C wedi cynyddu'n unol â chwyddiant (Mynegai RPI), mae'r gyfran o wariant S4C ar gostau staff uniongyrchol wedi parhau'n gymharol wastad, ac mae'r gyfran o'r incwm a gaiff ei gwario ar wasanaethau cynhyrchu annibynnol wedi cynyddu. Mae gwariant S4C ar gostau eraill sy'n gysylltiedig â rhaglenni'n rhoi cyfrif am ryw bedwar y cant o gyfanswm yr allbwn, gan adlewyrchu'r buddsoddiadau a wnaed mewn technoleg newydd a'r rhwydwaith well.

### Gwariant gan Sector Cynhyrchu Annibynnol Cymru

Fe wnaeth sector Cynhyrchu Annibynnol Cymru greu trosiant amcangyfrifedig o £131 miliwn yn 2009, sy'n gyfradd twf flynyddol o 8%rhwng 2007 a 2009. Daw'r incwm hwn o nifer o ffynonellau, gan gynnwys comisiynau gan S4C (sy'n 60 y cant o gyfanswm trosiant y sector). Yn ddi-ddorol ddigon, tra bo gwariant S4C ar y sector annibynnol wedi cynyddu 4% ar gyfartaledd rhwng 2007 a 2009, mae'r sector annibynnol yng Nghymru wedi tyfu 8%, sy'n dangos ei lwyddiant wrth sicrhau incwm o ffynonellau eraill. Mae'r canlyniad hwn yn gyson â sefyllfa lle mae S4C yn darparu fframwaith polisi sy'n annog y sector mewn ffordd weithredol i gynyddu i'r eithaf a manteisio ar gyfleoedd masnachol ehangach<sup>13</sup>.

Mae'r refeniw sy'n cael ei greu gan y sector Cynhyrchu Annibynnol yn cael ei wario wedyn ar draws nifer o wahanol feysydd. Mae Tabl 4.2 yn rhoi amcangyfrif o ddsbarthiad y gwariant ymysg darparwyr cynnwys rhaglenni Cymraeg, h.y. y Sector Annibynnol, o 2007 i 2009 (rhagolwg ar gyfer 2010). Mae rhan uchaf y tabl yn dangos gwerth pryniadau amcangyfrifedig yng Nghymru, (heb gynnwys costau llafur uniongyrchol) fesul pennawd bras. Felly, yn 2009, amcangyfrifir fod y Cynhyrchwyr Annibynnol wedi gwario dros £54 miliwn yng Nghymru, neu 40 y cant o gyfanswm y trosiant (heb gynnwys gwariant ar gyflogau).

Mae cyfran fawr o arian yn cael ei gwario ar lafur a gwasanaethau cynhyrchu, gan gynnwys taliadau i weithwyr llawrydd hunangyflogedig (cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, gwasanaethau sain a chamera a.y.b.). Mae rhai taliadau hefyd yn cael eu gwneud i wasanaethau golygu am waith a isgontractir a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau megis cyflenwyr ôl-gynhyrchu, a pherfformwyr a chyflwynwyr. Fodd bynnag, mae'r Cynhyrchwyr Annibynnol hefyd yn gwario arian yng Nghymru ar allbynnau a ddarperir gan sectorau eraill megis y sectorau Adeiladu, Cyllid a Busnes, Gwestai ac ati.

Tabl 4.2 – Gwariant Amcangyfrifedig gan Sector Cynhyrchu Annibynnol Cymru yng Nghymru

£m	2007	2008	2009	2010
Cyfanswm a brynwyd mewn gwasanaethau llafur a chynhyrchu	19.12	21.36	22.36	23.43
Ynni, dŵr	0.47	0.53	0.55	0.6
Llogi offer darlledu a phryniadau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau	9.27	10.36	10.84	10.4
Nwyddau traul, offer nad yw'n ymwneud â darlledu	0.60	0.67	0.70	0.73
Gwasanaethau cyllid a busnes	0.63	0.70	0.73	0.76
Cludiant, post, telathrebu a.y.b.	0.33	2.16	2.27	2.3
Eitemau eraill nas rhestrwyd eisoes	14.12	15.77	16.52	16.9
Is-gyfanswm	44.54	51.54	53.97	55.12
Mewnforio nwyddau a gwasanaethau	24.81	27.71	29.02	31.18
Costau llafur uniongyrchol	25.85	32.83	35.16	36.97
Gwerth ychwanegol arall	7.68	14.03	13.09	14.07
Allbwn Crynswth/ Trosiant	102.88	126.12	131.24	137.3
Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn	760	914	940	988

Sylwer: Efallai na fydd y colofnau'n rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu.

<sup>13</sup> Roedd strategaethau a gyflwynwyd gan S4C yn 2002-2006 megis y Strategaeth Rhaglenni, a'r trefniadau tendro, wedi'u bwriadu i ysgogi amgylchedd cystadleuol, masnachol a chreadigol i sicrhau ei dyfodol a'i chadwyn gyflenwi.

Ni yw'r holl fewnbynnau angenrheidiol yn gallu cael eu darparu'n lleol. Felly, caiff nwyddau a gwasanaethau eu prynu o'r tu allan i Gymru. Nid yw'r pryniadau hyn a fewnforir yn cael effaith ar yr economi leol. Mae'r mewnforion hyn yn ymddangos dan yr is-gyfanswm yn Nhabl 4.2 ynghyd â chostau llafur uniongyrchol a gwerth ychwanegol arall. Caiff swm y rhain a phryniadau yng Nghymru'u hadio at ei gilydd i adlewyrchu trosiant crynswth ar gyfer y sector (£131m yn 2009).

Wrth ystyried y nwyddau a'r gwasanaethau hyn a fewnforir, mae'n werth nodi bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, yn gynyddol, yn creu incwm o ffynonellau heblaw am S4C ac yn gweithredu ledled y DU. O ganlyniad i hyn mae'r sector yng Nghymru wedi tyfu o ran maint ac mae cyfanswm y lefelau cyflogaeth wedi cynyddu. Wrth i gwmnïau yng Nghymru ddarparu mwy o allbwn ar lefel y DU gyfan, a gweithio ar gyd-gynyrchiadau rhyngwladol a chyflenwi'r farchnad ryngwladol, nid yw'n syndod bod cwmnïau'n gwario cyfran o'u trosiant y tu allan i Gymru i gyflenwi'r allbynnau hyn. Yn gyson â'r twf sylweddol a welwyd o fewn y sector, mae'r gyfran hon o wariant wedi cynyddu ers yr astudiaeth yn 2006 o tua 10% o gyfanswm y trosiant i 20-25%.

Mae'r rhes olaf yn rhoi nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yr amcangyfrif ar sail y data o arolygon eu bod yn weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan y sector Annibynnol. Dros y cyfnod, mae nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol wedi cynyddu'n gyson, gan adlewyrchu twf y sector ar y cyfan, er ei bod yn bwysig nodi mai dim ond cyfran o'r swyddi cyfwerth ag amser llawn hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â S4C (gweler Tabl 4.3) ac nad ydynt i gyd yng Nghymru<sup>14</sup>.

## 4.2 Effaith Economaidd S4C

Fel a drafodir uchod, mae S4C yn hanfodol bwysig i sector cynhyrchu Cymru, gyda chomisiynau'n rhoi cyfrif am tua 60 y cant o gyfanswm trosiant y sector. Gan ddefnyddio gwariant uniongyrchol S4C yng Nghymru (Tabl 4.1), ynghyd â'r wybodaeth fanwl am wariant a ddarparwyd gan y sector annibynnol (Tabl 4.2) mae'n bosib canfod yr effaith bwysig y mae S4C yn ei chael ar y sector Cynhyrchu Annibynnol. Wedyn defnyddir y model Mewnbyn-Allbwn ar gyfer Cymru i amcangyfrif effaith lawn y gwariant hwn ar yr economi leol wrth i gylchoedd o bryniadau gael eu gwneud trwy'r gadwyn gyflenwi (effeithiau'r cyflenwyr). Yn ychwanegol at hyn ceir effeithiau trwy 'incwm ysgogedig' wrth i gyflogeion S4C a chyflenwyr S4C (ac yn y blaen) wario'u hincwm yn lleol, a thrwy hynny greu galwadau pellach ar yr economi sy'n arwain at gyflogaeth bellach. Caiff canlyniadau'r broses amcangyfrif hon eu nodi yn Nhabl 4.3.

---

<sup>14</sup> Er bod S4C wedi cyfrannu at dwf y sector, ni ellir priodoli'r holl gyflogaeth yn y sector Cynhyrchu Annibynnol yng Nghymru i S4C.

Tabl 4.3 – Amcangyfrif o Effeithiau Cyflogaeth S4C ar Economi Cymru 2007-2010

Allbwn Crynswth S4C (£m)	100.06	102.7	104.9	104.2
<b>Cyflogaeth (Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn)</b>	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>
Sydd wedyn yn cynnal cyflogaeth yn/mewn:				
S4C	168	154	156	156
Cynhyrchu annibynnol	519	570	580	585
Isgontractwyr i gynhyrchwyr annibynnol	445	488	505	485
Cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus eraill	170	183	185	190
Gwestai, manwerthu, cyfanwerthu	240	271	280	287
Sectorau Eraill	346	390	398	408
<b>Cyfanswm yr Effaith CagALI ar Economi Cymru</b>	<b>1,888</b>	<b>2,056</b>	<b>2,104</b>	<b>2,111</b>
DS: gall na fydd colofnau'n rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu				
*Cyfanswm gwariant/trosiant S4C.				

Mae'r llinell gyntaf yn Nhabl 4.3 yn rhoi allbwn crynswth S4C (neu gyfanswm gwariant S4C yng Nghymru) ar gyfer pob un o'r 4 blynedd. Mae gweithgareddau uniongyrchol S4C yn cynnal swyddi (ac incwm) mewn sectorau eraill yn yr economi. Mae'r effeithiau hyn yn tueddu i fod wedi'u canoli yn y sector Annibynnol ac mewn sectorau cysylltiedig (fel a ddangoswyd gennym eisoes yn Nhabl 4.2), ond maent hefyd yn gwasgaru i sectorau eraill yng Nghymru. Er enghraifft, wrth wneud allbynnau ar gyfer S4C, rhoddir galwadau ar westai, ar y diwydiant arlwygo a manwerthu, ac ar sectorau gwasanaethau eraill (gan gynnwys gwasanaethau busnes, hamdden ac addysg). Mae'r tabl yn dangos faint o swyddi CagALI sy'n gysylltiedig â'r galw hwn.

Mae'r rhes olaf yn Nhabl 4.3 yn rhoi cyfanswm effaith S4C mewn swyddi CagALI ar economi Cymru. Yn 2009 amcangyfrifir fod S4C wedi cynnal 2,104 o swyddi CagALI yng Nghymru, gyda'r ffigur yn parhau'n weddol sefydlog yn 2010. Trwy gydol cynnwrf ac ansicrwydd economaidd<sup>15</sup> a thechnolegol didostur<sup>16</sup>, mae S4C wedi darparu sicrwydd yn y rhan o'r sector sy'n 'gyflogedig', rhywbeth sy'n hanfodol i greu hinsawdd ffyniannus o fuddsoddi mewn pobl, sgiliau a thechnoleg.

O ran Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC), amcangyfrifir fod effaith S4C ar economi Cymru yn £85 miliwn yn 2009, yn codi i dros £88 miliwn yn 2010. Elfen allweddol o GYC yw cyflogau crynswth, cyflogau, elw//gwarged. Felly, mae'r newid mewn GYC yn dilyn effaith y newid mewn cyflogaeth a nodir uchod.

Nid yw'n bosib dwyn cymhariaeth uniongyrchol ag astudiaeth 2002-2006 oherwydd er bod yr un fethodoleg wedi cael ei defnyddio yn y ddwy astudiaeth, mae'r fframwaith modelu economaidd a ddefnyddiwyd i asesu cyfraniad S4C i'r economi ranbarthol wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu darlun cyfoes o'r economi. Ar ben hynny, ceir diffyg parhad yn y data cyfres amser a ddefnyddiwyd gennym (h.y. ni ellir cymharu'r data o arolygon yn uniongyrchol).

<sup>15</sup> Dirwasgiad y DU

<sup>16</sup> Y newid i deledu digidol

Wedi dweud hynny, mae'n bosib diddwytho o'r arolwg bod y newidiadau strwythurol canlynol wedi digwydd:

- Mae allbwn cyfartalog am bob swydd CagALI yn 2009 (wedi'i ddadchwyddo i gyfateb i arian 2006) tuag 20% yn uwch nag yn 2006. Felly, mae cynhyrchiant staff wedi cynyddu'n sylweddol, gan olygu y gellir cynhyrchu mwy o allbynnau â'r un lefel o gyflogaeth.
- Mae swm y nwyddau a'r gwasanaethau a fewnforir gan y sector annibynnol wedi cynyddu'n sylweddol. Bydd ffactorau sy'n cyfrannu'n cynnwys newidiadau technolegol yn y sector a oedd yn golygu bod angen prynu offer (ac ati) o fannau eraill; yn ogystal â phatrymau prynu busnesau mwy sydd â sylfeini cleientiaid ehangach (a chadwyn gyflenwi sy'n fwy gwasgaredig yn ddaearyddol).

Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn egluro lefel y ffigyrau ar draws y ddwy astudiaeth. Nid yw hyn yn tynnu oddi ar y lefelau sylweddol o weithgarwch economaidd a gynhelir gan wariant S4C yng Nghymru. Yn hytrach rydym yn disgwyl peth amrywiaeth yn yr effaith economaidd dros amser i adlewyrchu newidiadau o ran amodau strwythurol yn yr economi ranbarthol.

Yn bwysig, yr hyn a ddangoswyd gan yr astudiaethau yw bod S4C wedi rhoi cynhaliaeth a sefydlogrwydd i'r sector, i'r graddau bod cwmnïau o fewn y sector wedi gallu sicrhau referniw o ffynonellau eraill.

### 4.3 Crynodeb

Mae'r adran hon yn amcangyfrif effaith economaidd S4C dros y blynyddoedd o 2007 i 2010. Defnyddiodd y broses amcangyfrif ddata o arolygon gan S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol a hwnnw wedi'i brosesu gan ddefnyddio'r Tablau Mewnbyn-Allbwn ar gyfer Cymru.

Ar hyn o bryd, mae S4C yn cyflogi 156 aelod o staff CagALI, gyda throsiant o £104.2 miliwn. Dros y pedair blynedd o 2007 ymlaen, mae ei gweithgareddau a'i gwariant yn cynnal cyfartaledd o 2040 o swyddi CagALI yn economi Cymru. Gellir gwneud nifer o sylwadau allweddol mewn perthynas â'r pedair blynedd ddiwethaf:

Mae S4C wedi rhoi cynhaliaeth a sefydlogrwydd i'r sector Cynhyrchu Annibynnol. Mae hyn wedi bod yn ffactor pwysig yn ehangiad y sector, ehangiad o ryw 50% ers 2006, ac yn natblygiad ffrydiau referniw y tu allan i Gymru.

- Mae hyn yn rhoi cyfrif am y cynnydd yn y niferoedd a gyflogir yn uniongyrchol ar y cyfan gan y Cynhyrchwyr Annibynnol, tra bo cyflogaeth wedi'i his-gontractio i'w gweld yn sefydlog, ac mae'r cefndir yn un o gynhyrchiant cynyddol ar y cyfan.
  - Yn yr un modd, mae'r arfer o brynu'n lleol wedi parhau'n gymharol sefydlog, ond gyda'r twf mewn mewnbynnau'n cael ei gyflenwi gan nwyddau a gwasanaethau a brynir yn y DU.
-

## 5. Effeithiau ansoddol

Yn ogystal â'r effeithiau meintiol amcangyfrifedig ar economi Cymru, mae penderfyniadau polisi ac arferion gweithredol S4C yn dwyn effeithiau ehangach na ellir eu mesur yn uniongyrchol trwy'r broses Mewnbwn-Allbwn, ond y mae iddynt werth sylweddol serch hynny.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'n fyr yr effeithiau ansoddol craidd y mae S4C yn eu cael ar y diwydiannau creadigol ac economi Cymru.

### 5.1 Buddsoddi mewn Isadeiledd

Trwy ei strategaeth, mae S4C wedi cael effaith sylweddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar isadeiledd rhwydwaith ac isadeiledd addysgol.

- **Isadeiledd Technolegol: Rhwydwaith**

Mae S4C wedi buddsoddi adnoddau sylweddol yn natblygiad y Rhwydwaith<sup>17</sup> cyfraniadau darlledu ledled Cymru, gan alluogi cyflenwyr i ddarparu porthiant rhaglenni byw i S4C, ymysg ei gilydd ac i ddarlledwyr eraill, gydag ansawdd llawn. Roedd hyn ar flaen y gad o ran y gofynion ym myd darlledu ac mae wedi galluogi cyflenwyr i ddefnyddio rhwydwaith sy'n caniatáu iddynt gyflenwi S4C a darlledwyr eraill ag allbynnau o safon uwch, ac mewn manylder uwch. Ar gyfartaledd, mae S4C wedi buddsoddi £400,000 y flwyddyn yn y rhwydwaith hwn, sydd wedi ymestyn i Ogledd Cymru, Gorllewin Cymru (Llanelli) a Chaerdydd. Heb y buddsoddiad hwn, byddai cwmnïau'n gwbl ddibynnol ar drosglwyddo â lloeren wrth ddarparu deunydd ar gyfer rhaglenni byw (a'r rheiny o ansawdd is) neu ddanfon tapiau/disgiau â llaw. Heb y buddsoddiad hwn yn yr isadeiledd, byddai cyflenwyr S4C dan anfantis o fewn marchnad y DU a'r farchnad ryngwladol.

Mae'r safonau cywasgu a gyflwynwyd gan S4C ar gyfer cyfrannu deunydd ers 2008 (Cywasgiad Codec Jpeg 2000) bellach yn cael eu defnyddio gan amryw eraill ym myd darlledu yn y DU, ac maent wedi disodli'r technolegau hyn a oedd yn cael eu defnyddio.

- **Isadeiledd Technolegol: Buddsoddiad Cyfalaf**

Trwy gyfleu bwriad clir ar gyfer comisiynu, mae S4C wedi cynnig eglurder i'r diwydiant wrth iddynt gynllunio'u buddsoddiad mewn technoleg. Mae S4C wedi bod yn eglur wrth ddisgrifio wrth y sector pa gyfrannau o gomisiynau y bydd disgwyl eu cael mewn gwahanol safonau technolegol.

Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys sgrîn lydan, Teledu Manylder Uwch a thechnoleg cywasgu. Trwy ymlynu'n agos wrth arfer gorau'r UE, mae S4C yn sicrhau bod ei chadwyn gyflenwi'n gallu cystadlu ar lefel ryngwladol. Pe na bai S4C yn aros gyfuwch â'r datblygiadau technolegol, ac yn cyfleu'r datblygiadau hyn i'w chadwyn gyflenwi, byddai bwllch yn datblygu rhwng y safonau a fyddir gan S4C a'r farchnad ryngwladol, a byddai hyn yn gweithredu fel rhwystr i'r farchnad gan atal cwmnïau yng Nghymru rhag cael mynediad at farchnadoedd

---

<sup>17</sup> Gwnaed y buddsoddiad i wireddu gwelliannau ac effeithlonrwydd i S4C, yn berthnasol i'r rhwydwaith flaenorol.



eraill. O ystyried cyflymder datblygiadau technolegol, gallai'r bwlch hwn ddod yn un sylweddol ac o bosib yn un na ellid ei oresgyn.

Mae S4C hefyd yn rhan o'r grwpiau cyswllt technegol ar gyfer Cyfle (darparwr hyfforddiant) a TAC, gan lywio blaenoriaethau buddsoddi cwmnïau a'u helpu i uwchsgilio. Mae S4C hefyd wedi trefnu seminarau a sesiynau briffio ac wedi gwneud hyfforddiant staff mewnol yn agored i'r sector er mwyn iddynt wella'u hymwybyddiaeth a datblygu sgiliau a deall gofynion S4C yn well.

- **Addysg**

Mae cryfder y sector a'i angen am weithlu â sgiliau uchel wedi golygu bod angen datblygu sgiliau'r diwydiant. Mae dewisiadau addysgol myfyrwyr a darpariaeth mewn prifysgolion yn ddangosydd cynnar ar gyfer anghenion economaidd y sector. Mae hyn yn amlwg yng Nghymru gyda chryfder y ddarpariaeth gan SAU yng Nghymru. Yn arbennig, Cwrs Astudiaethau'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Aberystwyth, Astudiaethau Ffilm Ryngwladol Casnewydd, Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd a'r Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol ym Mhrifysgol Morgannwg.

Yn ogystal â thynfa'r galw, mae S4C wedi bod yn ddylanwadol wrth helpu i lunio cynnwys cyrsiau sydd wrthi'n datblygu i sicrhau eu bod ar flaen y gad o ran anghenion y diwydiant (Er enghraifft, rhoi cymorth i Brifysgol Morgannwg gyda chynnwys cyrsiau newydd) a thrwy wneud hynny'n anuniongyrchol trwy gyfarwyddo safonau'r diwydiant. Mae S4C hefyd yn darparu ac yn cyllido un lleoliad ar gyfer myfyriwr ar ryng-gwrs lefel gradd bob blwyddyn o fewn yr uned Darlledu a Dosbarthu. Daw'r myfyrwyr hyn yn ddiethriad o brifysgolion yng Nghymru. Mae S4C hefyd yn cydweithio'n agos ag Academi'r Cyfryngau Skillset i sicrhau bod y sgiliau ar gyfer y sector yn datblygu.

## 5.2 Datblygu Sgiliau'n Fewnol ac o fewn y Sector

Safonau: Disgwyliadau Technolegol  
Polisiau Cyflogaeth

Mae'r ddau faes yma wedi ei gwneud yn angenrheidiol i'r diwydiant fuddsoddi mewn datblygu sgiliau. Mae S4C wedi hwyluso proses lle caiff hyfforddiant ei ddarparu gan arbenigwyr mewn perthynas â newidiadau mewn polisiau technoleg ac wedi helpu'r sector i uwchsgilio dros amser.

Mae'n un o rag-amodau pob comisiwn a roddir gan S4C bod cwmnïau'n cyflwyno dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Mae hyn wedi annog y sector i fynd ati mewn ffordd weithredol i ystyried ei anghenion sgiliau ei hun ac ymateb i'r rhain. Mae'r cynlluniau hyfforddiant yn eu tro'n helpu i hysbysu'r cyngor sgiliau sector ynghylch y blaenoriaethau i'r sector o ran sgiliau a sicrhau bod cyllidebau hyfforddiant yn cael eu dyrannu i'r meysydd cywir er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosib yn economaidd ac o safbwynt busnes.

Hyfforddiant Ysgogi Arian Ychwanegol (CSS a Chronfa Gymdeithasol Ewrop)  
Darbodion Maint  
Cystadleurwydd

Yn 2009 yn unig buddsoddwyd cyfanswm o £1.2 miliwn yn Fframwaith Hyfforddiant S4C, TAC a Skillset, O'r cyllid hwn darparwyd 36% gan S4C a TAC, 19% gan DCELLS, 30% gan Skillset a 5% yn uniongyrchol gan gyflogwyr. Bu i'r cyllid hwn alluogi bron i 500 o unigolion gael mynediad at 27 o gyrsiau, a chael dros 9,000 o oriau o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Cafodd y rhan fwyaf o gyllid S4C a TAC ei gynnig dan brosesau tendro agored a chystadleuol.

### **5.3 Trosoledd yn y Diwydiannau Creadigol**

Fodd bynnag, mae S4C yn dwyn effaith ehangach ar faint a graddfa'r diwydiannau creadigol, y gellir ei mynegi ar draws ddau brif faes; Cyd-gynhyrchu a Throsglwyddo Gwybodaeth.

#### **Cyd-gynhyrchu**

Mae cyd-gynhyrchu'n golygu bod cwmni cynhyrchu yng Nghymru'n mynd ati ar y cyd gydag un parti cyllido neu bartner cynhyrchu neu fwy i gyflawni briff y prosiect. Gall fod sawl fersiwn o'r cynnwys i weddu i ofynion pob darlledwr. Mae S4C yn cynnig cyllid trwy drwydded i ddarlledu, a gellir cael cyllid cyfatebol gan bartïon eraill, sy'n hybu cyllidebau'r rhaglenni. Gall ansawdd uwch a chyllidebau gwell sicrhau y darperir allbwn gwell nag a fyddai'n cael ei ddarparu fel arall. Mae cyd-gynhyrchu hefyd yn dwyn effaith gadarnhaol trwy agor marchnadoedd rhyngwladol a chodi proffil a gwella hanes cwmnïau, sydd wedyn yn helpu i sicrhau comisiynau ychwanegol. Fel a ddangosir yn yr asesiad o effeithiau economaidd, mae'r gyfradd twf ymhlith sector annibynnol Cymru wedi bod yn fwy na'r cynnydd mewn gwariant gan S4C.

#### **Trosglwyddo Gwybodaeth a Mentrau Deilliannol**

Mae cwmnïau cynhyrchu o'r farn bod gweithio gyda S4C wedi eu galluogi i ddatblygu sgiliau a phrofiadau sy'n hwyluso'u hehangiad o fewn yr is-sector cynhyrchu, a hefyd ar draws meysydd eraill yn y diwydiannau creadigol megis rheoli digwyddiadau, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata. Mae hyn yn gwella ôl troed y sector pwysig hwn yng Nghymru a gwydnwch cwmnïau yn wyneb ansicrwydd economaidd.

Yn ogystal, mae hawliau marsiandïaeth sy'n cael eu ecsbloetio'n fasnachol gan gwmnïau (e.e. Sain) yn golygu bod buddiannau economaidd ychwanegol i'w casglu o'r gwerthiannau hyn, sy'n cefnogi ehangu pellach o'r sector diwydiant creadigol.

#### **Buddsoddiadau Masnachol**

Gall S4C, drwy ei his-gwmnïau masnachol, fuddsoddi mewn cwmnïau a thechnoleg sy'n cyfrannu i brif amcanion y darlledwr, er enghraifft drwy gefnogi mynediad i S4C dros wahanol lwyfannau, gwella'r mynediad i raglenni yn yr iaith Gymraeg, cyd-ariannu rhaglenni Cymraeg (yn cynnwys drwy gyd-gynrychiadau) a chefnogi datblygiad y diwydiannau creadigol Cymreig. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i ddenu cyllid ychwanegol i gefnogi datblygiad yn y sector. Er enghraifft, yn 2008 buddsoddodd un o is-gwmnïau S4C £6miliwn yn INUK Networks. Roedd y buddsoddiad yn rhan o rownd buddsoddi o £9.5m ar gyfer y cwmni, gyda Wesley Clover yn cyfrannu gweddill y buddsoddiad. Galluogodd y buddsoddiad i INUK, sydd wedi ei sefydlu yn Abercynon, De Cymru, ddatblygu ei lwyfan technoleg IPTV. Bu hefyd o gymorth i ddiogelu nifer o swyddi sgil uchel yn y cwmni. Ers hynny mae INUK wedi cael ei brynu gan MOVE Networks o'r Unol Daleithiau, ond mae wedi cadw ei ganolfan leol yn Abercynon. Mae Move Networks nawr yn defnyddio'r dechnoleg i ddarparu gwasanaethau IPTV i gwsmeriaid mewn

gwahanol rannau o'r byd. Dengys hyn sut fod buddsoddiad S4C wedi cynorthwyo i gadw gwaith sgiliau uchel a chefnogi datblygiadau technolegol yn y sector.

Mae adain fasnachol S4C hefyd yn buddsoddi arian mewn cynyrchiadau rhaglenni fel rhan o drefniadau cyd-gynhyrchu neu gyd-ariannu. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys *Holi Hanna*, *Igam Ogam* ac *Ynysoedd*.

#### Astudiaeth Achos: Effaith Trosoledd

Dechreuodd Dream Team TV tua 15 mlynedd yn ôl, gan ganolbwyntio ar ddarllediadau chwaraeon i S4C. Dros y blynyddoedd, mae Dream Team wedi cyflogi amryw wŷr camera o Gymru, wedi defnyddio cyfleusterau cynhyrchu yng Nghymru ac wedi codi proffil nifer o ddigwyddiadau chwaraeon yng Nghymru, megis Hanner Marathon Caerdydd, y mae pob un ohonynt wedi cyfrannu at yr economi.

Dros y blynyddoedd mae Dream Team TV wedi ehangu ac mae ganddo bellach ddwy swyddfa, y naill yng Ngwynedd a'r llall yn Cirencester. Daw incwm Dream Team TV oddi wrth nifer o ddarlledwyr ac mae cyfran S4C o'r cyfanswm refeniw wedi gostwng wrth i'r cwmni ehangu i farchnadoedd newydd. Wedi dweud hynny, mae Dream Team yn gweld yn glir bod comisiynau a chymorth (gan gynnwys hyfforddiant) cychwynnol gan S4C wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y cwmni.

Mae hon yn enghraifft glir o'r modd y mae cymorth cychwynnol gan S4C wedi galluogi cwmni yng Nghymru i ddatblygu ac ehangu, gan ddenu incwm ychwanegol o farchnadoedd newydd.

#### Astudiaeth Achos: Cyd-gynhyrchu

Mae Green Bay yn enghraifft glasur o gwmni sydd wedi manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan gyd-gynyrchiadau ac adaseinio hawliau rhaglenni. Mae'r cwmni'n eang ei orwelion, mae ganddo berthynas sefydledig â National Geographic ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu buddsoddiadau cyfalaf. Mae'r cwmni wedi ceisio mynediad at farchnadoedd newydd ac ehangach, wedi sicrhau buddsoddiad gan Cyllid Cymru, wedi elwa o'r Cynllun Denu Talent ac yn 2008 cafodd ei gydnabod fel y 100fed cwmni yn y rhestr o gwmnïau'r cyfryngau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae eu cyfres Afonydd, sef cyd-gynhyrchiad rhyngwladol, wedi bod yn llwyddiant, o ran adborth gwylwyr ac o ran gwerthiant rhyngwladol, gan olygu bod cronfa Eiddo Deallusol Busnes Creadigol Cymru wedi adennill ei buddsoddiad.

## 5.4 Effaith Gymdeithasol

Yn ogystal â'r cylch gorchwyl craidd, sef darparu rhaglenni Cymraeg, mae S4C yn chwarae rhan bwysig yn niwylliant a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn amlwg mewn pedwar prif faes:

- Diogelu'r iaith Gymraeg trwy greu galw am gyflogaion Cymraeg eu hiaith o ansawdd uchel (mewn cyflogaeth uniongyrchol, cyflogaeth anuniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi a gwasanaethau ategol fel cyrsiau hyfforddi)
- Effaith o ran Dosbarthiad Rhanbarthol – a welir trwy werth economaidd y gadwyn gyflenwi ledled cefnwlod Cymru, ac yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfleoedd eraill ar gyfer cyflogaeth â sgiliau uchel, a thâl uchel, yn isel.
- Proffil: Codi proffil digwyddiadau yng Nghymru (e.e. Hanner Marathon Caerdydd, sioeau lleol) a chwarae rôl lysgenhadol i arddangos talent o Gymru (e.e. gwerthiant rhyngwladol, ffilmiau ac ati)



- Cymuned: Nawdd, ysgoloriaethau a digwyddiadau lleol. Er enghraifft, fel rhan o'r gyfres Y Porthmon, cynhaliwyd digwyddiadau elusennol cymunedol ym mhob lle yr arhoswyd ynddo, gyda'r gymuned leol yn cael ei gwahodd i gymryd rhan, a chodi arian ar gyfer elusennau lleol.

## 5.5 Crynodeb

Mae'r effeithiau meintiol hyn yn bwysig a chânt eu gweld trwy nifer o fesurau a strategaethau a fabwysiadwyd gan S4C.

Felly, yn ogystal â'r effaith uniongyrchol a mesuradwy – mae S4C yn rhoi ysgogiad hollbwysig i ddenu buddsoddiad mewn isadeiledd (technoleg, addysg a sgiliau) sy'n galluogi'r sector i gystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Dangoswyd hyn gan lwyddiannau unigol cwmnïau, ond hefyd y twf a welwyd yn y sector ar y cyfan. Mae rôl S4C yn y cymunedau'n bwysig. Mae canolfannau o fewn y diwydiannau creadigol yn bodoli mewn rhannau o Gymru oherwydd S4C, ac mae'r busnesau hyn yn bwysig i'r economïau lleol hynny, gan gyflawni rôl aiddosbarthol, yn ogystal â darparu cyfleoedd cyflogaeth y mae angen mawr amdanynt mewn sectorau â sgiliau uchel.

Yn y bôn, diben bodolaeth S4C yw darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru. Trwy wneud hynny, a thrwy ei gweithgarwch a'i pholisïau, mae S4C yn dwyn effeithiau economaidd a chymdeithasol pwysig ar economi Cymru.

## 6. Casgliadau Cyffredinol

Mae S4C yn allweddol bwysig i'r sector cynhyrchu yng Nghymru. Gydag allbwn crynswth o £105 miliwn yn 2009, mae'r darlledwr trwy ei benderfyniadau gwario'n cynnal tua 150 o swyddi CagALI yn uniongyrchol yn S4C, a thua 1,950 yn fwy o swyddi CagALI ar draws perthnasoedd o fewn y gadwyn gyflenwi. Mae'r mwyafrif llethol o'r rhain yn y sector cynhyrchu annibynnol ac yn isgontractwyr i'r sector annibynnol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd cyflogaeth pwysig â thâl uchel a sgiliau uchel yng Nghymru, sy'n gyson â nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru<sup>18</sup> sef gwella'r economi wybodaeth, â sgiliau uwch, mwy o arloesi a swyddi gwell o fewn y diwydiannau creadigol, sy'n un o'r chwe sector targed newydd.

Allbwn Crynswth S4C (£m)	100.06	102.7	104.9	104.2
<b>Cyflogaeth (Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn)</b>	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>
Sydd wedyn yn cynnal cyflogaeth yn/mewn:				
S4C	168	154	156	156
Cynhyrchu annibynnol	519	570	580	585
Isgontractwyr i gynhyrchwyr annibynnol	445	488	505	485
Cyfyngau a gwasanaethau cyhoeddus eraill	170	183	185	190
Gwestai, manwerthu, cyfanwerthu	240	271	280	287
Sectorau Eraill	346	390	398	408
<b>Cyfanswm yr Effaith CagALI ar Economi Cymru</b>	<b>1,888</b>	<b>2,056</b>	<b>2,104</b>	<b>2,111</b>
DS: gall na fydd colofnau'n rhoi cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu				
*Cyfanswm gwariant/trosiant S4C.				

Yn ogystal â'r effaith weladwy iawn hon ar yr economi, mae S4C wedi sicrhau, trwy ei pholisïau a'i strategaethau, amgylchedd o sefydlogrwydd cymharol. Mae S4C wedi gwneud hyn trwy dryloywder y polisi mewn perthynas â datblygiadau technolegol, a chymorth i gwmnïau mewn perthynas â buddsoddi mewn technoleg briodol a datblygiadau sgiliau.

Mae mynnu bod ansawdd yr allbynnau'n aros gyfuwch â'r gofynion yn y diwydiant ehangach yn galluogi'r sector cynhyrchu yng Nghymru i gael mynediad at farchnadoedd ehangach, gan fanteisio ar gefnogaeth weithredol S4C i gyd-gynrychiadau, defnydd o adaseinio hawliau a gwerthiant rhyngwladol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r sector annibynnol yng Nghymru wedi tyfu'n gyflymach na gwariant S4C (sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Manwerthu), rhywbeth sy'n awgrymu bod cwmnïau wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau refeniwiau ychwanegol o farchnadoedd ehangach.

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn anodd ac yn ansicr, gyda adrannau'r llywodraeth yn adolygu cyllidebau<sup>19</sup> ac ymrwymadau gwariant. Gan ystyried dibyniaeth cwmnïau ar S4C (daw 60% o drostiant y sector o S4C), bydd gostyngiad mewn gwariant (canlyniad gostyngiad mewn incwm o'r DCMS) yn cael effaith uniongyrchol ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Nid yw'n eglur i ba raddau y bydd busnesau'n gallu llyncu'r gostyngiad hwn mewn

<sup>18</sup> Rhaglen Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd Gorffennaf 2010

<sup>19</sup> Cyhoeddir canlyniadau'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr yn Hydref 2010



gwariant. Bydd gostyngiad mewn gweithgarwch yn arwain at effeithiau economaidd a chymdeithasol.



## Atodiad 1 Methodoleg Fanwl

### Methodoleg Feintiol

Er mwyn cynnal dadansoddiad o arwyddocâd economaidd gweithgaredd, diwydiant neu sefydliad unigol, mae angen gwahanu effeithiau economaidd uniongyrchol oddi wrth y rheiny sy'n anuniongyrchol. Mae canlyniadau economaidd uniongyrchol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd ei hun tra bo effeithiau anuniongyrchol yn cael eu teimlo yng ngweddill yr economi leol gan ddibynnu sut, pryd a phle y caiff arian ei wario.

Tasg gyntaf yr asesiad hwn oedd amcangyfrif effeithiau uniongyrchol gweithgareddau S4C o safbwynt cyflogaeth o 2007 i 2009 (rhagolwg ar gyfer 2010), gan ddefnyddio gwybodaeth fanwl a ddarparwyd gan S4C. Mae'r gwariant uniongyrchol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gweithredol S4C hefyd yn arwain at ganlyniadau anuniongyrchol a bennir gan y modd y caiff arian ei wario. Er enghraifft, pan fo S4C yn gwario arian ar wasanaethau ariannol yng Nghymru, mae hyn yn creu galw am fewnbynnau gan ddiwydiannau eraill yng Nghymru, megis gwasanaethau busnes a nwyddau a gwasanaethau eraill, ac yn y blaen. Effeithiau 'cyflenwyr' yw'r rhain, ac mae eu pwysigrwydd economaidd yn gysylltiedig â'r lefel o brynu'n lleol ar gyfer y sector penodol, ac yna lefelau prynu'n lleol y cyflenwyr, ac yn y blaen. Yn amlwg, ni all rhai o'r galwadau a wneir gan S4C a'i chyflenwyr (fel sy'n wir am ddarllidwyr eraill yng Nghymru) gael eu hateb yn lleol, felly mae'n rhaid i'r rhain gael eu mewnfario. Un enghraifft bosib o hyn fyddai llogi offer technegol sy'n fwy anarferol ac yn offer arbenigol o fewn y cyfryngau.

Gellir amcangyfrif effeithiau economaidd eraill sydd y tu hwnt i'r effeithiau hyn sy'n gysylltiedig â'r cyflenwyr. Er enghraifft, yn 2009 roedd S4C yn darparu 156 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CagALI) o fewn ei sefydliad. Mae cyfran uchel o'r incwm gwario sy'n gysylltiedig â'r swyddi hyn yn cael ei gwario'n lleol, gan ychwanegu ymhellach at y galw'n lleol. Yn yr un modd, bydd rhyw gyfran o'r gyflogaeth mewn cyflenwyr lleol (rhain sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'r cyfryngau) yn cael ei chynnal gan wariant S4C, a bydd rhan o'r gyflogaeth hon yn lleol. Effeithiau 'incwm ysgogedig' yw'r rhain, ac mae'n rhaid eu hychwanegu at yr effeithiau 'cyflenwyr' i asesu cyfanswm canlyniadau uniongyrchol y gweithgareddau economaidd lleol uniongyrchol. Fel gydag effeithiau uniongyrchol, gellir categorio effeithiau anuniongyrchol o ran allbwn, incwm a swyddi.

Mae dau ofyniad eang ar gyfer amcangyfrif y canlyniadau anuniongyrchol neu luosydd hyn. Yn gyntaf, mae'n rhaid archwilio patrymau gwariant y grŵp targed (yn yr achos hwn, S4C a'r cynhyrchwyr annibynnol y mae'n comisiynu allbynnau ganddynt). Er bod y boblogaeth o ran cwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi bod yn mynd trwy broses gyfuno, ac er ein bod yn gwybod llawer am y sector, ni fu'n bosib archwilio pob un o'r cwmnïau ar y lefel manylder a oedd yn ofynnol. Felly roedd angen deillio sampl o gwmnïau er mwyn cael goleuni ar y gwahaniaethau mewn patrymau gwariant sy'n deillio o amrywiadau ym maint ac arddull y cwmnïau sy'n gweithredu o fewn y sector ac yna roi'r pwysoliad priodol i'r wybodaeth honno. Er mwyn cyflawni hyn roedd yn angenrheidiol defnyddio sampl 'fwriadus' (yn hytrach na sampl ar hap). Gyda phoblogaeth fechan sy'n rhwydd i'w hadnabod roedd maint y sampl yn llai pwysig nag ansawdd yr wybodaeth. Mae'r wybodaeth ariannol a gafwyd gan bob cwmni'n gyfrinachol. Wedyn cafodd yr allbynnau ariannol hyn eu cyfuno i greu sector cyfun sy'n cynrychioli patrymau prynu (neu, at ddibenion modelu, y 'factor') sy'n creu'r effeithiau economaidd sydd wedyn yn adleisio trwy Gymru.

---

Roedd yr ail ofyniad yn un am 'fodel' o'r economi leol a all amcangyfrif effeithiau'r perthnasoedd masnachu ariannol hyn yng Nghymru (h.y. trwy eu patrymau gwerthu a phrynu), sy'n ei gwneud yn bosib olrhain effaith y sector targed trwy'r economi leol i gyd. Mae tabl Mewnbwn-Allbwn yn rhoi manylion gweithrediadau rhwng gwahanol sectorau yn yr economi a thu hwnt, a chafodd yr wybodaeth hon ei throsi'n fframwaith modelu i'w gwneud yn bosib amcangyfrif arwyddocâd economaidd S4C.

### Cyfngiadau'r Model

Er bod dadansoddiad Mewnbwn-Allbwn yn darparu erfyn modelu pwerus, mae iddo nifer o gyfngiadau. Mae'r tablau y mae'r model yn seiliedig arnynt yn rhoi amcangyfrif o economi Cymru mewn un flwyddyn benodol, gyda'r tablau diweddaraf ar gyfer Cymru'n ymwneud â 2007. Dim ond yn gyfnodol y caiff tablau Mewnbwn-Allbwn llawn sy'n seiliedig ar arolygon eu deillio oherwydd y costau sylweddol mewn amser ac adnoddau sy'n gysylltiedig â hyn. Yn ogystal â hynny, nid yw patrymau prynu a gwerthu diwydiannau a defnyddwyr yn newid yn ddigon sylweddol yn y byrdymor i gyfiawnhau tabl seiliedig ar arolygon ar gyfer pob blwyddyn.

Mae'r broses fodelu Mewnbwn-Allbwn yn dibynnu ar nifer o dybiaethau allweddol. Mae'r model yn seiliedig ar y galw, a bydd yn adlewyrchu'r canlyniadau mewn cyflogaeth ac allbwn sy'n deillio o lefel benodol o alw, heb addasiad ar gyfer effaith cyflenwad ar gost y galw hwnnw. Yn y byd go iawn gall newid yn lefel y galw mewn economi achosi newid yng nghost mewnbynau gan ddibynnu ar dyndra'r cyflenwad o nwyddau a gwasanaethau y mae galw amdanynt mewn sectorau yr effeithir arnynt. Nid yw dadansoddiad Mewnbwn-Allbwn yn cynnwys yr addasiadau hyn ar yr ochr gyflenwi ond yn hytrach mae'n adlewyrchu safle o gydbwysedd y gallai gymryd nifer o flynyddoedd i'w ddatrys (y tymor hir fel y'i gelwir). Ar ben hynny, nid yw'r broses fodelu'n cynnwys ffactorau megis newid mewn technoleg, na darbodion maint, a fydd yn newid y ffordd y mae diwydiannau'n prynu mewnbynau. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, yn y byrdymor, mae'r newidiadau hyn yn annhebygol o fod yn arwyddocaol.

Er gwaethaf y cafeatau hyn, mae'r dull Mewnbwn-Allbwn yn darparu disgrifiad manwl iawn o economi, ac mae'n fethodoleg boblogaidd, dderbyniol a thryloyw sy'n ddefnyddiol ar gyfer asesu effaith neu arwyddocâd ymylol diwydiannau neu weithgareddau ar eu heconomïau lleol.

### Enghreifftiau Eraill

Caiff y tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru eu llunio gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd, ac maent yn deillio o brosiect ymchwil parhaus i ddatblygu a dadansoddi strwythur economi Cymru, a'r ffordd y mae'n newid dros amser. Mae'r tablau hyn wedi cael eu defnyddio fel sail i ystod o astudiaethau o effeithiau gwahanol ddiwydiannau yng Nghymru, er enghraifft, twristiaeth, y diwydiant celfyddydol a diwyllianol, y diwydiant coedwigaeth, y sectorau addysg uwch ac addysg bellach a'r diwydiant dur. Maent hefyd wedi cael eu defnyddio i amcangyfrif effaith darlledu yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth am yr astudiaethau hyn a'r prosiect Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru yn [www.weru.org.uk](http://www.weru.org.uk).



#### Methodoleg Ansoddol

Mae un cafeat olaf yng nghyd-destun yr astudiaeth arbennig hon yn ymwneud â thrin referniw a gwariant 'swmpus' sy'n digwydd yn y cwmnïau unigol a oedd yn sail i'r gwaith modelu. Mewn perthynas â hyn, gall rhai cwmnïau gael llwyddiant mewn un cylch comisiynu ar draul cwmnïau eraill gydag effaith gyffredinol y sector o ran yr hyn sy'n deillio'n uniongyrchol o S4C, o flwyddyn i flwyddyn, yn gyfyngedig i gyllideb gomisiynu uniongyrchol S4C. Dim ond effaith y gwariant hwn y gall y dull meintiol ei fodelu.